PECYN Y CLEIENT

# PECYN CYMORTH INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA) A GWAITH CYSYLLTIEDIG

## Pecyn A: Cleientiaid | Rhan 2: Canllawiau i Gleientiaid

Cyfres Gwella Cartrefi

GREEN MAN ECOLOGY

Caru • Love Ceredigion

Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu ganlyniadau anfoddhaol sy'n codi yn sgil gweithredu unrhyw weithgareddau a geir o fewn y Pecyn Cymorth hwn. Nid yw'r defnydd o enwau perchnogol a masnachol o fewn y Pecyn Cymorth hwn yn golygu o angenrheidrwydd bod y cynnyrch yn cael ei gymeradwyo gan yr awduron.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf, na thrwy unrhyw ddull, gan gynnwys llungopïo, recordio neu ddulliau trydanol a mecanyddol eraill, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan **Gyngor Sir Ceredigion**.

*Fersiwn 1.2 Medi 2016*

**Arweinwyr y Prosiect:** Graeme Lane a Leanne Bird

**Golygwyd gan:** Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion

**Ysgrifennwyd gan:** Catharine Wüste, Green Man Ecology Ltd.

**Cyfraniadau gan:** Graeme Lane, Cyngor Sir Ceredigion, yr Ecolegydd llawrydd Tom McOwat, Willmott Dixon Energy Services Ltd, Barbara Owsianka, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ian Thomas (gwirfoddolwr)

**Dyluniwyd gan**: InSynch

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymgyngoreion**: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod

**Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PG**

# Y PECYNNAU CYMORTH

## Pecyn A: Pecyn y Cleient

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer cleientiaid

## Pecyn B: Pecyn yr Ecolegydd

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr

Rhan 3 – Cais am Drwydded Rhanddirymiad Rhagofalus

- *ffurflen gais*
- *templed MS*

## Pecyn C: Pecyn y Contractwr

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Contractwyr

Rhan 3 – Datganiad y dull lliniaru

Rhan 4 – Sgwrs y bocs tŵls

## Pecyn D: Pecyn Lliniaru

Rhan 1 – Ffurflen archwilio lliniaru eiddo

Rhan 2 – Enghraifft o ffurflen archwilio lliniaru wedi ei llanw

Rhan 3 – Catalog o ddulliau lliniaru a gwelliannau

Rhan 4 – Cais am wybodaeth gyhoeddus am ystlumod ac adar

Rhan 5 – Gwybodaeth am flychau ar gyfer rhywogaethau a bywyd gwyllt a warchodir ar gyfer perchnogion eiddo

# Y BROSES GYFAN

## CAM 1: Pennu'r risg i ystlumod ac adar sy'n magu

- Arolwg bwrdd gwaith gan gynnwys chwiliad y Ganolfan Cofnodion Lleol
- Arolwg ar droed gan ecolegydd cymwys i chwilio am arwyddion o ystlumod, a allai fod ystlumod yn bresennol, gan gynnwys mynedfeydd posib ac arwyddion o adar sy'n magu

Os nad oes DIM arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / a does dim tebygolrwydd bod ystlumod yn breswennol, gallwch fynd ymlaen â'r gwaith, gan ymgorffori'r gwelliannau ar gyfer yr eiddo dan sylw.

Os oes arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / mae'n bosibl bod ystlumod yn bresennol – ewch i gam 2.

## CAM 2: Cynllunio mesurau lliniaru

- Gwarchod rhag effeithio ar yr ystlumod drwy sicrhau bod yr holl fynedfeydd sydd ganddynt yn cael eu cadw, a thrwy beidio ag effeithio ar linell y to/y bondo
- Gwneud y gwaith y tu allan i dymor magu'r adar
- Darparu nythod newydd sy'n addas ar gyfer y rhywogaethau perthnasol

GELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / does dim angen ymestyn llinell y to / does dim angen bondo newydd

— Dylech lunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
— Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â'r datganiad dull ar gyfer yr eiddo dan sylw

NI ELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / mae angen ymestyn llinell y to / mae angen bondo newydd – ewch i gam 3.

## CAM 3: Arolwg presenoldeb / absenoldeb

- Os nad yw'n bosibl gwarchod rhag yr effeithiau posib, bydd angen cynnal arolygon presenoldeb/absenoldeb o'r ystlumod yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

Os NAD OES dim tystiolaeth o ystlumod

— Bydd angen llunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
— Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â datganiad dull yr eiddo dan sylw.

OS OES tystiolaeth o ystlumod. Dylech wneud cais am drwydded ystlumod penodol (rhanddirymiad) ar gyfer yr eiddo dan sylw, a gwneud y gwaith yn unol â'r datganiad dull (gan ymgorffori mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer adar) NEU peidiwch â gwneud y gwaith.

# CYNNWYS

1 CYFLWYNIAD .....1

2. YMGORFFORI ECOLEG MEWN CYNLLUNIAU INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA).....1

2.1 Yr angen i ystyried ecoleg .....1

3. DYLETSWYDD CYRFF CYHOEDDUS DROS FIOAMRYWIAETH .....1

3.2 Dyletswydd o dan Reoliadau Cynefinoedd .....2

3.3 Dyletswydd o dan o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) .....2

3.4 Dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol .....2

3.5 Cynllun Adfer Natur .....3

4. CYFLAWNI IWA .....3

4.2 Cwmpas gwaith yr ecolegydd .....5

4.3 Costau'r ymgynghorydd ecolegol .....5

4.3.5 Hefyd bydd y ganolfan cofnodion lleol yn codi ffi am geisiadau ar gyfer cofnodion Biolegol. Mae'r ffi'n amrywio ond mae rhai canolfannau cofnodion yn cynnig opsiwn syml o chwiliad 'ystlumod ac adar' am oddeutu £50 + TAW. .....6

4.4 Costau lliniaru a gwella bioamrywiaeth .....6

4.6 Pryderon ynghylch blychau ystlumod ac adar .....7

## FFIGURAU

Ffigur A2- 1: Rhan yr ecolegydd mewn Cynllun IWA .....4
Figure A2- 2: Enghraifft o liniaru/gwella gyda blwch ystlumod .....8

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Pecyn A, Rhan 1: Cyflwyniad Cyffredinol , yn nodi'r materion sy'n gysylltiedig ag Insiwleiddio Waliau Allanol a'r cefndir i'r Pecyn Cymorth hwn, gan gynnwys ystyriaethau deddfwriaethol eraill.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau penodol ar gyfer cleientiaid sy'n ystyried cynllun IWA ar eu heiddo, neu ar gyfer sefydliad/Awdurdod Lleol sy'n gweithredu ar ran perchnogion tai.

# 2. YMGORFFORI ECOLEG MEWN CYNLLUNIAU INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA)

## 2.1 Yr angen i ystyried ecoleg

2.1.1 Fel mae'r Cyflwyniad Cyffredinol yn ei nodi, mae ystlumod ac adar mewn perygl o gael eu heffeithio'n sylweddol gan gynllun IWA. Hefyd, am eu bod wedi'u gwarchod yn gyfreithlon, mae yna berygl ychwanegol y gallai'r cleient ac/neu'r contractwr gyflawni trosedd yn ystod y gwaith. Felly mae'n hanfodol bod y cynllun (iau) yn cynnwys integreiddiad ecolegol er mwyn gwarchod ystlumod ac adar, yn ogystal ag osgoi troseddu yn erbyn bywyd gwyllt. Fodd bynnag, o'u trefnu'n iawn, does dim angen i ystyriaethau ecolegol fod yn gostus neu'n feichus, a gellir eu cynnwys fel rhan o gynllun heb unrhyw oedi na chostau sylweddol.

# 3. DYLETSWYDD CYRFF CYHOEDDUS DROS FIOAMRYWIAETH

3.1.1 Mae nifer fawr o'r cynlluniau IWA hyn yn cael eu gweithredu gan Awdurdodau Lleol, neu gan gyrff cyhoeddus eraill, neu ar ran Awdurdodau Lleol, a hynny'n aml gydag arian Llywodraeth Cymru. Felly, dylid nodi bod yna ofynion deddfwriaethol ychwanegol i'w hystyried gan y cyrff hyn, ac o ganlyniad, y rhai sy'n cwblhau'r gwaith ar eu rhan

## 3.2 Dyletswydd o dan Reoliadau Cynefinoedd

3.2.1 Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth bywyd gwyllt a ddisgrifir yn Rhan 1, rhaid i awdurdod cymwys, wrth gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau, roi ystyriaeth i ofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, i'r graddau y cânt eu heffeithio wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae awdurdodau cymwys yn cynnwys Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus (e.e. Awdurdodau Lleol), gweinidogion ac ati, yn ogystal ag unrhyw berson sy'n cyflawni swyddogaeth ar ran y cyrff hyn[1].

## 3.3 Dyletswydd o dan o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)

3.3.1 Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus (e.e. Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac ati) i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni'i swyddogaethau, a thrwy wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau (Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Mae'r ddyletswydd hon yn disodli ac yn atgyfnerthu dyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006). Bydd canllawiau ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd hon yn cael eu rhyddhau'n hwyrach yn 2016.

## 3.4 Dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

3.4.1 Yn ogystal, mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'u swyddogaethau i gwrdd â'u hamcanion Datblygu Cynaliadwy. Mae'n gosod saith Nod Llesiant ar gyfer y Gymru gynaliadwy a garem:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

3.4.2 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau'r Parciau

[1] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/490/contents/made

Cenedlaethol, ystyried cyflawni'r nodau llesiant yn eu holl bolisïau a strategaethau, ac wrth ariannu a darparu grantiau drwyddi draw.

## 3.5 Cynllun Adfer Natur

3.5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Adfer Natur Cymru[2], sy'n anelu at fynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth **fel a ganlyn**:

- rhoi byd natur wrth galon penderfyniadau Llywodraeth Cymru
- gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol
- cymryd camau penodol o ran cynefinoedd a rhywogaethau.

3.5.2 Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Cymru'n gwireddu ymrwymiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a Strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar Fioamrywiaeth, er mwyn atal y dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna gwrthdroi'r dirywiad hwnnw. Mae'r amcanion yn rhoi arweiniad ynglŷn â mynd i'r afael â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy o ran bioamrywiaeth, a sut y dylai Llywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Lleol a chyrff perthnasol eraill fynd ati gyflawni hynny.

# 4. CYFLAWNI IWA

4.1.1 Rhaid cyflawni cynllun IWA yn unol â'r holl ddeddfwriaeth a pholisïau priodol, ac mae hynny'n berthnasol i bob cleient a chontractwr. Er bod y dyletswyddau uchod yn ymwneud yn uniongyrchol ag awdurdodau cyhoeddus, mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod unrhyw sefydliad sy'n gweithio ar eu rhan i gyflawni'u dyletswyddau, hefyd yn mynd ati i gynnal bioamrywiaeth. Felly, pan fydd bwriad i ddefnyddio arian cyhoeddus ar gyfer cynllun, mae dyletswyddau Deddf yr Amgylchedd, Deddf Llesiant A Chenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol.

4.1.2 Er mwyn ateb y gofynion yma, mae angen nodi a lliniaru'r effaith bosib ar ystlumod ac adar, ac ymgorffori'r gwelliannau yn y cynllun o'r cychwyn cyntaf. Mae ystyriaethau'r cleient wedi eu nodi yn y diagram llif isod (A2-1). Mae'r diagram llif ar ddechrau'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses gyfan o ran ymgorffori cadwraeth a gwelliannau i ystlumod ac adar fel rhan o gynlluniau IWA.

4.1.3 Er mwyn cyflawni'r broses hon, mae angen mewnbwn ecolegol oddi wrth ecolegydd ystlumod gyda chymwysterau a phrofiad addas.

4.1.4 Mae angen mewnbwn ecolegydd am y rhesymau canlynol:


1) gall cynllun sydd wedi'i ddylunio'n dda atal unrhyw effaith andwyol ar rywogaeth a warchodir (a allai fod yn drosedd);

---

[2] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/?lang=en

2) mae darganfod rhywogaeth a warchodir (ystlumod neu adar) ar ôl i'r gwaith ddechrau, yn debygol iawn o olygu atal neu ohirio'r gwaith, ac oedi costus. Gallai ecolegydd nodi'r adeiladau y gallai ystlumod ac adar eu defnyddio a byddai'n bosibl cytuno ar strategaeth liniaru cyn dechrau ar y gwaith (yn y rhan fwyaf o achosion); ac
3) dim ond ecolegydd cymwys a thrwyddedig a all;
   i) nodi'r ystyriaethau o ran rhywogaethau a warchodir lle mae'r adeiladau yn y cwestiwn
   ii) rhoi cyngor priodol ar fesurau lliniaru
   iii) sicrhau bod y mesurau lliniaru'n cael eu gweithredu'n gywir
   iiii) llanw rhannau perthnasol trwydded rhanddirymiad ac ysgrifennu datganiadau dull priodol

**Ffigur A2- 1:** Rhan yr Ecolegydd mewn cynllun IWA



## 4.2 Cwmpas gwaith yr ecolegydd

4.2.1 Mae Pecyn C, Rhan 2, Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr yn disgrifio'n fanwl pa waith ecolegol sy'n ofynnol ar gyfer cynllun IWA. Yn gryno, dylai gwaith yr ecolegydd gynnwys:

- Ymchwil bwrdd gwaith (gan gynnwys asesu erialau, golwg o'r stryd ac ati, yn ogystal â chwilio cofnodion ecolegol y Ganolfan Cofnodion Lleol, a chynnal trafodaethau gyda'r cofnodwr Sirol) (man lleiaf)
- Arolwg ar droed (man lleiaf)
- Adroddiad cychwynnol, gan gynnwys mesurau lliniaru, pa arolygon pellach sy'n ofynnol a manylion y gwelliannau (man lleiaf)
- Arolygon i weld pryd mae'r ystlumod yn dod allan (yn ddelfrydol, os oes unrhyw risg i ystlumod, ond gall amseriad yr ariannu a ffactorau eraill gyfyngu arnynt. Bydd yn ofyniad diamod mewn rhai sefyllfaoedd e.e. arolwg caniatâd cynllunio neu os oes lefel uchel o risg posib na ellir ei liniaru trwy ddyluniad)
- Cais am Drwydded Rhanddirymiad EPS a datganiad dull (os canfyddir y gall fod yna glwydfan ystlumod)
- Archwiliadau o ben y sgaffald (pan fydd angen archwiliad manylach neu ar gyfer ardaloedd na ellid eu harchwilio fel rhan o'r arolwg ar droed)
- Archwilio gwagleoedd (os bernir y gallant ganiatáu mynediad i'r atig)
- Diweddaru'r adroddiad (fel bo angen)
- Sgyrsiau 'bocs tŵls' gyda'r contractwyr (gall contractwyr gyflawni'r rhain)
- Archwiliad (i sicrhau bod y nodweddion wedi'u hymgorffori yn ôl y gofynion)
- Monitro (os oes yna nodweddion, pennu eu llwyddiant)

4.2.2 Felly, mae angen ystyried y mewnbwn ecolegol wrth fynd ati i gynllunio prosiect, ac mae angen neilltuo costau priodol ar gyfer gwasanaethau ymgynghori ecolegol / gwasanaethau ecolegol mewnol (os oes rhai ar gael), a mesurau lliniaru, fel rhan o'r cais *cychwynnol* am arian. Dylai pwy bynnag sy'n paratoi'r cais am arian grant nodi'r gost.

## 4.3 Costau'r ymgynghorydd ecolegol

4.3.1 Bydd y gost yn amrywio yn ôl:

- Math a nifer y tai sy'n cael eu targedu **yn** y cynllun gwella
- Y pellter sy'n rhaid i'r ecolegydd deithio i gyrraedd y safle
- Y ffi unigol a godir gan ymgynghorwyr ecolegol gwahanol
- Costau teithio a threuliau eraill

4.3.2 Gall y costau amrywio hefyd yn ôl pa mor brofiadol yw'r ecolegydd. Er mwyn penderfynu a yw'r ecolegydd yn meddu ar y cymwysterau iawn ai peidio, argymhellir eich bod yn troi at y canllaw 'Competence for Species Survey: Bats' CIEEM[3]. Bydd o fantais hefyd os yw'r ecolegydd wedi delio â chynlluniau tebyg o'r blaen.

4.3.3 Os oes modd, dylech gael dyfynbris oddi wrth y nifer gofynnol o ecolegwyr (gweler y rheolau Caffael) i bennu'r costau tebygol. Y ffordd orau o amcangyfrif ffioedd ecolegol yw cyfrifo faint o ddyddiau y gall fod angen i'r ecolegydd fod ar y safle. Er enghraifft:

- Arolwg ar droed ac adroddiad cychwynnol - tua 2 ddiwrnod fel arfer ar gyfer 100-200 o dai tebyg ar stâd. Bydd angen mwy o amser ar gyfer ardaloedd lle mae'r tai wedi'u gwasgaru, neu os ydynt yn amrywio o ran pensaernïaeth.
- Archwilio o ben y sgaffald ac archwiliad cyffredinol – fel arfer 3-6 o dai ar yr un pryd. Fel arfer hanner diwrnod (gan gynnwys teithio os yw'r ecolegydd yn byw'n lleol).
- Archwilio gwagleoedd – fel arfer 8 – 10 gwagle mewn diwrnod.

4.3.4 Trowch at becyn yr Ecolegwyr (PECYN B) a phecyn y Contractwyr (PECYN C) i gael gwybodaeth am y gwasanaethau ecolegol angenrheidiol, a gwnewch yn siŵr bod yr ecolegydd yn cael manylion clir wrth ofyn am ddyfynbrisiau.

4.3.5 Hefyd bydd y ganolfan cofnodion lleol yn codi ffi am geisiadau ar gyfer cofnodion Biolegol. Mae'r ffi'n amrywio ond mae rhai canolfannau cofnodion yn cynnig opsiwn syml o chwiliad 'ystlumod ac adar' am oddeutu £50 + TAW.

## 4.4 Costau lliniaru a gwella bioamrywiaeth

4.4.1 Bydd nodweddion gwella'n ofynnol ar gyfer bob cynllun, yn ogystal â mesurau lliniaru, lle bo'n berthnasol. Bydd angen arian i brynu blychau ystlumod ac adar, a deunyddiau eraill all gael eu defnyddio fel rhan o'r mesurau lliniaru e.e. estyll bondo, yn ogystal â'r costau gosod.

## 4.5 Ymgysylltu â deiliaid tai / Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs)

4.5.1 Mae darparu ar gyfer ystlumod ac adar yn y gwaith a wneir ar dai'n gallu bod yn fater dadleuol. Efallai y bydd gan deiliaid y tai/RSL eu rhagdybiaethau eu hunain ynghylch effaith bosib y nodweddion sydd dan sylw.

[3] http://www.cieem.net/data/files/Resource_Library/Technical_Guidance_Series/CSS/CSS_-_BATS_April_2013.pdf

4.5.2 Mae'n hanfodol mynd i siarad â deiliaid y tai/RSL yn gynnar yn y broses. Dylech drafod y mesurau lliniaru ecolegol pan fyddwch chi'n cwrdd â deiliaid y tai/RSL am y tro cyntaf/pan fyddan nhw'n cwrdd â'r contractwr am y tro cyntaf.

4.5.3 Pan fyddan nhw'n gofyn am ganiatâd ar gyfer cynllun IWA, mae angen bod deiliaid y tai/RSL yn deal y gall fod angen cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ecolegol fel rhan o'r cynllun ar eu heiddo, a bydd angen gofyn am ganiatâd ysgrifenedig ar gyfer hyn bryd hynny.

4.5.4 Os bydd deiliaid y tai'n gwrthod, efallai y bydd angen cynnal arolygon ecolegol (gan ddibynnu ar ganlyniadau'r arolwg ar droed) i benderfynu a oes ystlumod ac adar yn yr eiddo, a allai arwain at yr angen am fesurau lliniaru a gwelliannau beth bynnag. Os bydd deiliaid y tai'n gwrthod yn llwyr, neu os nad oes modd cynnal arolygon digonol oherwydd cyfyngiadau amser, yna os oes posibilrwydd bod ystlumod yn bresennol, ni ddylid gwneud gwaith IWA ar yr eiddo, ac ni ddylid eu cynnwys yn y cynllun.

4.5.5 Os na chynhelir y trafodaethau hyn, ac os na cheir y caniatâd hwn o'r cychwyn, gall problemau godi'n nes ymlaen, gan achosi oedi, a golygu o bosib na fydd yn bosibl cyflawni'r cynllun.

4.5.6 Yn ogystal, ni ellir cael Trwydded Rhanddirymiad EPS am fod deiliaid tai/RSL yn gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol yn unol â'r adroddiad ecolegol (ac felly'r datganiad dull).

4.5.7 Enw'r contractwr sydd ar y drwydded, ac felly'r contractwr a fyddai'n cyflawni trosedd trwy dorri amodau'r drwydded. Nid yw'r holl welliannau a mesurau lliniaru ar gyfer adar wedi'u cynnwys yn y drwydded hon, ond byddant yn ofynion ar gyfer cyflawni dyletswyddau LlC a'r Awdurdod Lleol.

# 4.6 Pryderon ynghylch blychau ystlumod ac adar


4.6.1 Er mwyn ceisio lleddfu unrhyw bryderon sydd gan ddeiliaid tai/RSL, mae'n bwysig meddu ar y ffeithiau am y camsyniadau cyffredin sydd gan bobl ynghylch nodweddion o'r fath. Mae'n bwysig deall hefyd pam ein bod yn gwneud y gwaith hwn (gweler Rhan 1 – Cyflwyniad am fwy o fanylion).

4.6.2 Dyma rai camsyniadau cyffredin:

- **Mae angen gwaith cynnal a chadw arnyn nhw** – dyw hyn ddim yn wir, cyn belled â bod y blychau cywir wedi'u dewis a bod yr adar yn eu defnyddio, does dim gwaith cynnal a chadw
- **Byddant yn creu budreddi** – ni ddylid gosod blychau ystlumod ac adar uwchben drysau neu ffenestri lle gallant achosi anghyfleustra
- **Byddant yn atal perchnogion rhag cael caniatâd cynllunio yn y dyfodol** - eto nid yw hyn yn wir. Pur anaml y bydd presenoldeb ystlumod yn arwain at wrthod caniatâd cynllunio, cyn belled â bod arolygon priodol wedi'u cynnal, a mesurau lliniaru wedi'u hystyried. Hefyd, mae'n haws lliniaru'r effaith os bydd ystlumod

neu adar yn defnyddio blwch yn hytrach na’r tŷ ei hun am fod lleoliad yr ystlumod yn hysbys, a gellir symud y blwch ar yr adeg briodol o’r flwyddyn a’i osod ar yr estyniad newydd (er enghraifft).

- **Maent yn hyll/salw** – mae llawer o flychau ystlumod yn cael eu gosod yn y cladin, gyda dim ond hollt yn y golwg, sy’n llai na fent awyru (gweler Ffigur A2-2).



**Ffigur A2-2:** Enghraifft o flwch ystlumod sy’n rhan o fesur lliniaru/gwelliant